# Agenda - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Tachwedd 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwygio@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

(09.15-10.00) (Tudalennau 1 - 13)

Elizabeth Haywood, Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Daniel Hurford, Clerc, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

**Dogfen ategol**

Briff Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(10.00)

**3.1 Llythyr at y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 22 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 14 - 15)

**3.2 Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 22 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 16 - 17)

4 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2023**

(10.00)

5 **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth**

(10.00 - 10.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru

Rhun ap Iorwerth AS
Arweinydd Plaid Cymru

22 Tachwedd 2023

Annwyl Mark a Rhun

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Rydym bellach yn tynnu tua diwedd y broses o gasglu tystiolaeth i lywio ein gwaith craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Nodwn fod y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi effaith, yn fras, i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Mehefin 2022.

Wrth inni ddechrau dod i gasgliadau ar sail y dystiolaeth a gawsom, ac wrth inni ystyried argymhellion posibl, rydym yn cadw mewn cof y tebygrwydd y bydd angen uwch-fwyafrif o 40 Aelod o leiaf ar y Bil hwn os yw am basio ei gyfnod olaf.

Roedd y Datganiad Safbwynt ar y Cyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022 gan bartneriaid y Cytundeb Cydweithredu ac a ddarparwyd i'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd hefyd yn cydnabod y byddai angen mwyafrif o ddau draean i'r cynigion lwyddo.

Er mwyn llywio ein gwaith, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd chi'ch dau, fel partneriaid yn y Cytundeb Cydweithredu, i roi tystiolaeth ar y materion a ganlyn:

1. A ydych yn parhau i fod yn hyderus y bydd uwch-fwyafrif yn y Senedd o blaid y cynigion yn y Bil, gan gynnwys y system etholiadol rhestr gaeedig arfaethedig.

2. A ydych wedi ystyried y posibilrwydd y gallai cynigion amgen ddenu uwch-fwyafrif pe bai'r Senedd yn penderfynu diwygio un neu fwy o'r trefniadau etholiadol yn y Bil.

3. Hefyd, byddai gennym ddiddordeb mewn trafod â chi'r dystiolaeth a'r rhesymeg a arweiniodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd at y casgliadau a nodir yn y Datganiad Sefyllfa ar y Cyd.

Mae gan y Pwyllgor gyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer dydd Iau 30 Tachwedd 2023 a dydd Iau 7 Rhagfyr 2023. Byddem yn hapus i fod yn hyblyg o ran amseroedd ar y dyddiadau hynny, neu i drafod opsiynau ar gyfer dyddiadau eraill yn ôl eich argaeledd.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Adam Price AS, cyn-arweinydd Plaid Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**

**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Cwnsler Cyffredinol
Llywodraeth Cymru

22 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): gweithredu

Diolch eto am gytuno i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Biliau Diwygio ddydd Mercher 13 Rhagfyr. Edrychwn ymlaen at drafod y Bil a'r materion sydd wedi codi o'n gwaith craffu ar y Bil hyd yma.

I'n galluogi i wneud y defnydd gorau o amser yn y sesiwn dystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu'r wybodaeth ganlynol ymlaen llaw:

1. Trosolwg o'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer gweithredu diwygiadau etholiadol Llywodraeth Cymru cyn etholiad 2026.

2. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r llinell amser y cyfeirir ati uchod yn cynnwys yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'r gwaith arfaethedig ar gyfer adolygu, diwygio, cydgrynhoi, a chraffu ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd).[1]

3. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi syniad o natur a maint y newidiadau yr ydych yn rhagweld y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig yn eich ymgynghoriad ar ddiwygio a chydgrynhoi Gorchymyn 2007, gan gynnwys, er enghraifft, y mathau o fesurau ymarferol

---

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, paragraff 342

(y tu hwnt i gynllun y papurau pleidleisio) y mae'n bosibl y rhoddir sylw iddynt yn y Gorchymyn.

Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn gallu llywio'r sesiwn dystiolaeth ar 13 Rhagfyr 2023, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb **erbyn 30 Tachwedd 2023**.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.